Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor

Y Pedwerydd Colociwm ar Lenyddiaeth Gymraeg Fodern a Chyfoes
Yr Hen Goleg, Prifysgol Bangor,
Dydd Sadwrn, 7 Tachwedd 2009, am 10.00 a.m.

Cofio'r Chwalfa Fawr: Dylanwad Refferendwm 1979 ar Lenyddiaeth Gymraeg ac ar y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig

Bu'r bleidlais lethol o blaid 'Na' yn refferendwm 1979 ar ddatganoli yn glec seicolegol aruthrol i'r mudiad cenedlaethol yng Nghymru. Wrth gydnabod anferthedd y bleidlais honno, sôn am wynebu eliffant ar stepen y drws a wnaeth John Morris, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd. Ond i genedlaetholwyr ymrwymedig roedd ymgodymu â'r bleidlais 'Na' yn brofiad mwy apocalyptaidd ei natur na syllu ar eliffant. Iddynt hwy, chwalfa, dilyw, a gwarthnod ar yr hunaniaeth Gymreig oedd y cwbl. I rai, roedd y canlyniad yn gyfystyr â diwedd cenedl y Cymry, a thrwy 'frad' trodd 1 Mawrth 1979, yng ngeiriau un bardd, 'yn loddest angladdol yr iaith'.

Archwilio'r ymateb yn llenyddiaeth a diwylliant poblogaidd y 1980au i chwalfa 1979 y bydd y gynhadledd hon. Ac y mae'n faes ymchwil cwbl briodol. Wedi'r cwbl, drwy ran helaeth o'r 20g. bu'r cyswllt rhwng llenyddiaeth Gymraeg a chenedlaetholdeb yn un cilyddol. Ym mha fodd yr ymatebodd beirdd a llenorion Cymraeg y cyfnod i chwalfa '79? A gafodd '79 ddylanwad pellgyrhaeddol ar y dychymyg a'r meddwl Cymreig ac ar hinsawdd lenyddol y 1980au? Beth yw'r cyswllt rhwng yr ymateb llenyddol i '79 a'r hyn a gafwyd yng ngherddoriaeth boblogaidd y 1980au? Dyna rai o'r cwestiynau y bydd y gynhadledd hon yn ceisio'u hateb, a hynny yng nghwmni academwyr, beirdd, llenorion a gwleidyddion blaenllaw.

acadEmi
hybu llên • literature promotion

Cofio'r Chwalfa Fawr: Dylanwad Refferendwm 1979 ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Meddwl Cymreig

Yr Hen Goleg, Prifysgol Bangor
Dydd Sadwrn, 7 Tachwedd 2009

(**Dylech gofrestru ymlaen llaw ar gyfer y gynhadledd hon, gw. isod)**

Rhaglen

10.00: **Cofrestru a phaned: Yr Hen Goleg**

10.30: *Yr Athro Richard Wyn Jones* (Prifysgol Caerdydd)

'Wedi'r Chwalfa: Cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y 1980au'

11.30: *Dr Simon Brooks* (Prifysgol Caerdydd)

'Cenedlaetholdeb ethnig a'r nofel Gymraeg wedi methiant 79'

12.30: **Cinio**

1.30: *Yr Athro Peredur Lynch* (Prifysgol Bangor)

'"Symbol dwyfol y cachu defaid" : y syniad o genedl ym marddoniaeth Gymraeg y 1980au'

2.15: *Dr Pwyll ap Siôn* (Prifysgol Bangor)

'"Ethiopia Newydd"? Iwtopia a Dystopia mewn Canu Pop Cymraeg wedi Refferendwm 1979'

3.00: **Paned**

3.15: Holi'r llenorion a'r gwleidyddion:

Trafodaeth o dan gadeiryddiaeth Vaughan Hughes gyda Cynog Dafis, Meg Elis, Iwan Llwyd, Menna Machreth a Gareth Miles.

FFURFLEN GOFRESTRU

Cofrestru: £5.00 (am ddim i'r di-waith ac i fyfyrwyr)
Cofrestru a bwyd ganol dydd: £15.00 (£5.00 i'r di-waith ac i fyfyrwyr)

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn: Cyfeiriad e-bost:

A ydych yn ddi-waith neu'n fyfyriwr?

Yr wyf yn dymuno cofrestru yn unig (£5.00/am ddim i'r di-waith neu i fyfyrwyr)

Yr wyf yn dymuno cofrestru a chael bwyd ganol dydd (£15.00/£5.00 i'r di-waith ac i fyfyrwyr)

*Amgaeaf arian parod/siec (yn daladwy i 'Prifysgol Bangor')/manylion cerdyn credyd (gw. isod)**

Dychweler y ffurflen hon **erbyn 2 Tachwedd** at Bethan Brown, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Manylion cyswllt: 01248 383673 (b.w.brown@bangor.ac.uk) / 01248 382240 (p.i.lynch@bangor.ac.uk)

---

* Manylion cerdyn credyd

Tynnwch £ yn erbyn fy ngherdyn credyd/cerdyn dyled

Nodwch y math o gerdyn (ni dderbynnir Amex na Diners):

Visa ☐ Mastercard ☐ Switch ☐ Unrhyw fath arall _____

Yn ddilys o ___/___ Dyddiad dod i ben ___/___ 3 rhif olaf ar y cefn _____

Rhif rhyddhau (Mastercard a rhai cardiau dyled yn unig) _____

Enw ar y cerdyn:

Rhif y cerdyn: _____ / _____ / _____ / _____

Llofnod: